Senedd Cymru
Y Pwyllgor Busnes

# Diwygio’r Rheolau Sefydlog:
Rheol Sefydlog 17: pleidleisio mewn Pwyllgor o'r Senedd Gyfan a chyfrifoldeb am fynediad i gyfarfodydd

Hydref 2025

Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), y Pwyllgor Busnes sy’n gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Senedd, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer ail-wneud y Rheolau Sefydlog neu eu diwygio.

Mae'r adroddiad hwn yn argymell newidiadau i Reol Sefydlog 17 er mwyn:

- Galluogi Pwyllgor o'r Senedd Gyfan i ddefnyddio dull pleidleisio electronig drwy gysoni’r dulliau pleidleisio â'r dulliau sydd ar gael yn y Cyfarfod Llawn.
- Egluro mai cyfrifoldeb yr Aelod unigol yw sicrhau bod ganddo fynediad o bell neu yn y cnawd i unrhyw gyfarfod pwyllgor ac unrhyw ddulliau pleidleisio sydd ar waith, cyn pleidlais y mae’n bwriadu cymryd rhan ynddi.

Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu trafodaethau’r Pwyllgor Busnes ar y canllawiau ynghylch cyfranogiad rhithwir a hybrid mewn Cyfarfodydd Llawn ac mewn cyfarfodydd pwyllgor, ac yn benodol ei gasgliad y dylai fod disgwyliad cryf y bydd Aelodau'n cymryd rhan yn y cnawd yn ystod cyfnodau diwygio Biliau.

Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r cynigion i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog fel y'u nodir yn Atodiad 1, a chytuno y dylai'r newidiadau ddod i rym ar unwaith. Nodir y Rheolau Sefydlog diwygiedig, os cânt eu cymeradwyo, yn Atodiad 2.

# Cynnwys

1. Y cefndir ..... 3

Trafodion rhithwir a hybrid ..... 3

Yr arfer yn y Senedd ..... 3

Yr arfer mewn mannau eraill ..... 4

Pleidleisio mewn pwyllgorau ..... 5

Yr arfer yn y Senedd ..... 5

Yr arfer mewn mannau eraill ..... 6

2. Trafodaethau'r Pwyllgor Busnes ..... 6

Ymatebion i'r ymgynghoriad ..... 6

Dulliau pleidleisio i'w defnyddio mewn pwyllgorau ..... 7

Pwyllgor o'r Senedd Gyfan ..... 7

Pwyllgorau eraill ..... 7

Aelodau'n cymryd rhan mewn trafodion rhithwir a hybrid ..... 8

Cyfrifoldeb am sicrhau bod gan Aelod fynediad i gyfarfodydd (a systemau/dulliau pleidleisio) ..... 8

Canllawiau ar drafodion rhithwir a hybrid ..... 8

Penderfyniad ..... 9

Atodiad 1 Rheol Sefydlog 17 arfaethedig a nodiadau esboniadol ..... 10

Atodiad 2 Y Rheolau Sefydlog fel y'u diwygiwyd ..... 12

Rheol Sefydlog 17 – Gweithredu Pwyllgorau ..... 12

# 1. Y cefndir

## Trafodion rhithwir a hybrid

### Yr arfer yn y Senedd

1. Ym mis Gorffennaf 2022, daeth y Pwyllgor Busnes i'r casgliad, yn sgil adolygiad o Reol Sefydlog 34 dros dro a chymryd rhan o bell yn nhrafodion y Senedd, y dylid cadw fformatau cyfarfodydd rhithwir a hybrid, a ddatblygwyd yn wreiddiol i hwyluso parhad trafodion y Senedd yn ystod pandemig COVID-19.

2. Wedi hynny, cyhoeddodd y Llywydd ganllawiau ffurfiol ar drafodion rhithwir a hybrid yn unol â Rheol Sefydlog 6.17. Mae'r canllawiau'n cynnwys adrannau sy'n ymwneud â Chyfarfodydd Llawn a chyfarfodydd pwyllgor.

3. Mae'r canllawiau ynghylch cyfarfodydd pwyllgor yn ei gwneud yn ofynnol i gadeiryddion, pwyllgorau ac aelodau'r pwyllgorau ystyried y busnes dan sylw (ymhlith ffactorau eraill) wrth wneud penderfyniadau ynghylch fformat cyfarfodydd a'r modd y mae'r Aelodau'n dymuno cymryd rhan. Nid oes gofyniad tebyg ar gyfer Cyfarfodydd Llawn.

4. Mae'r canllawiau ynghylch Cyfarfodydd Llawn yn cynnwys cyfeiriad at Reol Sefydlog A12.41A, sy'n ei gwneud yn glir mai cyfrifoldeb yr Aelod yw sicrhau bod ganddo fynediad i Gyfarfodydd Llawn, a'r system bleidleisio a ddefnyddir, cyn pleidleisiau y mae'n bwriadu cymryd rhan ynddynt. Nid oes canllaw cyfatebol ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor.

5. Nododd Pwyllgor Senedd y Dyfodol y gall cymryd rhan yn rhithwir helpu i liniaru rhwystrau a allai fel arall atal rhai Aelodau rhag cymryd rhan. Daeth i'r casgliad y dylid cadw'r gallu i gymryd rhan yn rhithwir, ac argymhellodd y dylid "adolygu'r canllawiau ar gyfranogiad o bell o bryd i'w gilydd i sicrhau bod cydbwysedd priodol rhwng cyfranogiad yn y cnawd a chyfranogiad o bell ar draws y Senedd".

## Yr arfer mewn mannau eraill

**6.** Mae dadansoddiad o wybodaeth a rannwyd gan ddeddfwrfeydd yn y DU ac yn rhyngwladol,[1] ac ymchwil ddesg sy'n canolbwyntio ar ddeddfwrfeydd yn y DU, yn awgrymu'r canlynol:

- Mae'n ymddangos mai prin y gwneir trefniadau i hwyluso cymryd rhan yn rhithwir mewn Cyfarfodydd Llawn fel mater o drefn,[2] er bod llawer o ddeddfwrfeydd wedi hwyluso trefniadau o'r fath yn ystod y pandemig a bod rhai wedi cadw darpariaeth y gellir ei defnyddio mewn argyfyngau yn y dyfodol.[3]
- Mae trefniadau i hwyluso cymryd rhan yn rhithwir mewn cyfarfodydd pwyllgor ar gyfer aelodau'r pwyllgor[4] a thystion[5] yn gyffredin. Mewn rhai deddfwrfeydd, mae rheolau neu ddisgwyliadau penodol ynghylch hyn, er enghraifft: gofyniad y bydd cadeiryddion bob amser yn cymryd rhan yn y cnawd,[6] pennu gofynion ynghylch lleoliad daearyddol Aelodau sy'n

[1] Cafwyd deunaw o ymatebion oddi wrth ddeddfwrfeydd yn y DU, Awstralia, Canada, Cyprus, Ghana, India, Iwerddon, Jersey a Phacistan.
[2] O'r deddfwrfeydd a ymatebodd, dim ond Taleithiau Jersey a ddywedodd eu bod yn hwyluso cymryd rhan yn rhithwir fel mater o drefn.
[3] Yn Senedd Seland Newydd, mae'r Rheolau Sefydlog yn dal i wneud darpariaeth sy'n galluogi sesiynau hybrid, ond dim ond mewn argyfyngau y disgwylir iddi gael ei defnyddio. Yn Senedd Ghana, mae'r Rheolau Sefydlog yn darparu y caiff y Tŷ, o dan amgylchiadau eithriadol, megis ansefydlogrwydd, anhrefn, pandemig neu unrhyw drychineb sy'n ei gwneud yn anymarferol i bob Aelod fod yn bresennol yn gorfforol, fabwysiadu gweithdrefnau ar gyfer sesiynau rhithwir. Yng Nghynulliad Deddfwriaethol Ynys y Tywysog Edward, caiff y Llefarydd roi darpariaeth ar waith o dan amgylchiadau brys neu eithriadol i alluogi Aelodau i gymryd rhan yn holl drafodion y Tŷ yn rhithwir neu yn y cnawd. Yng Nghynulliad Deddfwriaethol Senedd De Cymru Newydd, mae deddfwriaeth sylfaenol yn darparu y gellir caniatáu cymryd rhan yn rhithwir mewn achosion o argyfwng cyhoeddus a phan fo'r mwyafrif o'r Aelodau'n gofyn am hynny.
[4] Er enghraifft, Cynulliad Deddfwriaethol Tiriogaeth Prifddinas Awstralia, Tŷ'r Cyffredin yng Nghanada, Senedd Seland Newydd, Cynulliad Deddfwriaethol Alberta, Senedd Awstralia, Senedd Victoria, Taleithiau Jersey, Senedd Pacistan, Cynulliad Deddfwriaethol Queensland a Chyngor Deddfwriaethol Senedd De Cymru Newydd.
[5] Mae Tŷ'r Cyffredin yn y DU yn hwyluso cymryd rhan yn rhithwir fel mater o drefn ar gyfer tystion, ond nid ar gyfer aelodau'r pwyllgorau.
[6] Yn Nhŷ'r Cyffredin yng Nghanada, mae'r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i'r Aelod sy'n llywyddu dros sesiwn pwyllgor gymryd rhan yn y cnawd.

cymryd rhan yn rhithwir,[7] neu feini prawf o ran cymhwystra Aelodau i gymryd rhan yn rhithwir.[8]

## Pleidleisio mewn pwyllgorau

### Yr arfer yn y Senedd

**7.** Mae Rheol Sefydlog 17 yn gwneud darpariaeth ar gyfer gweithredu pwyllgorau, gan gynnwys Pwyllgor o'r Senedd Gyfan. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ynghylch pleidleisio mewn pwyllgorau, ac yn benodol y dulliau pleidleisio y caniateir eu defnyddio.

**8.** Cyn mis Mehefin 2020, roedd Rheol Sefydlog 17.35 yn nodi mai drwy godi dwylo y byddai'r pwyllgorau'n pleidleisio. Roedd Rheol Sefydlog 34 dros dro yn caniatáu i bwyllgorau ddefnyddio dulliau pleidleisio electronig am gyfnod byr yn ystod pandemig COVID-19, ond caniatawyd i hyn ddod i ben ym mis Gorffennaf 2022 yn dilyn adolygiad gan y Pwyllgor Busnes. Wedi hynny, cytunodd y Senedd i ddiwygio Rheol Sefydlog 17.35 i ychwanegu galw'r gofrestr at y dulliau pleidleisio sydd ar gael i'w defnyddio mewn pwyllgorau. Mater i gadeirydd y pwyllgor perthnasol yw penderfynu, yn unol â Rheol Sefydlog 17.23, a ddylid cynnal pleidleisiau drwy godi dwylo neu drwy alw'r gofrestr.

**9.** Mae Rheol Sefydlog 17.35 yn gymwys i bob pwyllgor, gan gynnwys Pwyllgor o'r Senedd Gyfan. Fodd bynnag, am resymau ymarferol, defnyddir dull pleidleisio electronig pan gynhelir trafodion Cyfnod 2 mewn Pwyllgor o'r Senedd Gyfan.[9]

---

[7] Yn Senedd Seland Newydd, disgwylir i Aelodau sy'n bresennol o fewn cyffiniau'r safle seneddol gymryd rhan yn y cnawd. Yn Nhŷ'r Cyffredin yng Nghanada, rhaid i Aelodau sy'n cymryd rhan yn rhithwir mewn pwyllgor neu Gyfarfod Llawn fod yng Nghanada.
[8] Yn Nhŷ'r Arglwyddi, mae cymhwystra i gymryd rhan yn rhithwir yn amodol ar 'statws aelod cymwys' a roddir ar sail anabledd hirdymor sy'n golygu nad yw'r Aelod yn gorfforol yn gallu bod yn bresennol yn y cnawd.
[9] O ran agweddau eraill ar bleidleisio mewn Pwyllgor o'r Senedd Gyfan, mae Rheol Sefydlog 12.41B yn darparu bod y Rheolau Sefydlog sy'n galluogi pleidleisio drwy ddirprwy yn gymwys i Bwyllgor o'r Senedd Gyfan. Wrth gadeirio Pwyllgor o'r Senedd Gyfan, mae Llywyddion a Dirprwy Lywyddion at ei gilydd wedi defnyddio pŵer y cadeirydd i benderfynu ar weithdrefnau'r pwyllgor o dan Reol Sefydlog 17.23 i gymhwyso darpariaeth sy'n cyfateb i'r hyn a nodir yn Rheol Sefydlog 12.44 ynghylch defnyddio'r gloch. Gan fod y pŵer cyffredinol o dan Reol Sefydlog 17.23 yn ddarostyngedig i ddarpariaeth benodol yn rhywle arall yn y Rheolau Sefydlog, ni ellir ei ddefnyddio i ddiystyru'r ddarpariaeth sydd yn Rheol Sefydlog 17.35 ar hyn o bryd, sef y pleidleisir mewn pwyllgorau drwy godi dwylo neu drwy alw'r gofrestr.

### Yr arfer mewn mannau eraill

**10.** Yn Senedd yr Alban, mae darpariaeth ynghylch pleidleisio wedi'i rhannu fel a ganlyn:

- **Rheolau sy'n gymwys mewn Cyfarfodydd Llawn ac mewn Pwyllgor o'r Senedd Gyfan.** Mae Rheol 11.7 yn darparu y pleidleisir fel arfer drwy system bleidleisio electronig, ond y gellir pleidleisio drwy alw'r gofrestr neu drwy unrhyw ddull pleidleisio arall a bennir gan y Llywydd os na ellir defnyddio'r system bleidleisio electronig am unrhyw reswm. At hynny, os yw'n ymddangos i'r Llywydd fod y system bleidleisio electronig wedi rhoi canlyniad annibynadwy, caiff y Llywydd ofyn i'r Aelodau bleidleisio eto gan ddefnyddio unrhyw ddull pleidleisio y mae'r Llywydd yn ystyried ei fod yn briodol.

- **Rheolau sy'n gymwys mewn pwyllgorau heblaw Pwyllgor o'r Senedd Gyfan.** Mae Rheol 11.8 yn darparu, oni bai bod y Senedd yn cyfarwyddo pwyllgor fel arall, y pleidleisir drwy godi dwylo, drwy alw'r gofrestr neu drwy system bleidleisio electronig. Rhaid i'r cynullydd benderfynu ar ddechrau pob cyfarfod pa ddulliau pleidleisio y mae o'r farn y byddai'n briodol eu defnyddio pe bai pleidlais yn cael ei chynnal.

**11.** Yn Nhŷ'r Cyffredin yn y DU, pleidleisir mewn pwyllgorau cyffredinol (gan gynnwys Pwyllgorau Biliau Cyhoeddus) a phwyllgorau dethol drwy alw'r gofrestr. Pleidleisir yn y Siambr (gan gynnwys wrth eistedd fel Pwyllgor o'r Tŷ Cyfan) drwy rannu'n lobïau ar wahân (pan fo her i farn y Llefarydd neu'r cadeirydd ynghylch penderfynu ar gwestiwn).

# 2. Trafodaethau'r Pwyllgor Busnes

## Ymatebion i'r ymgynghoriad

**12.** Roedd ymgynghoriad y Pwyllgor Busnes ar y broses craffu deddfwriaethol ar gyfer Biliau Cyhoeddus yn cynnwys cwestiwn am effaith trafodion rhithwir a hybrid ar graffu deddfwriaethol.

**13.** Tynnodd Fforwm y Cadeiryddion sylw at yr hyblygrwydd y mae cymryd rhan yn rhithwir yn ei gynnig, a rôl hynny o ran sicrhau bod lleisiau amrywiol yn gallu cael eu clywed, a helpu i sicrhau a chynnal cworwm. Pwysleisiodd cadeiryddion natur a phwysigrwydd craffu deddfwriaethol, gan awgrymu y dylai'r Pwyllgor

Busnes ystyried a oes angen cryfhau'r canllawiau mewn perthynas â thrafodion deddfwriaethol, gan gynnwys disgwyliadau y bydd:

- Aelodau'r pwyllgorau, yr Aelod sy'n gyfrifol am bob Bil a'r Gweinidog sy'n arwain ar Filiau anllywodraethol yn bresennol yn y cnawd yn nhrafodion Cyfnod 2.
- Yr Aelod sy'n gyfrifol am bob Bil a'r Gweinidog sy'n arwain ar Filiau anllywodraethol yn bresennol yn y cnawd yn unrhyw sesiwn dystiolaeth yng Nghyfnod 1, os bydd y pwyllgor yn gofyn am hynny.

**14.** Tynnodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a Fforwm y Cadeiryddion, sylw at risgiau ymarferol penodol sy'n gysylltiedig â chymryd rhan yn rhithwir yn ystod trafodion cyfnodau diwygio'r pwyllgorau ar Filiau. Mae'r risgiau hynny'n cynnwys, er enghraifft, Aelodau'n colli eu cysylltiad yn ystod dadleuon neu bleidleisiau, neu fideos yn rhewi ac yn ei gwneud yn anodd gwybod sut y mae Aelod yn bwrw ei bleidlais yn ystod pleidlais a gynhelir drwy godi dwylo. Awgrymodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y dylid ystyried galluogi pwyllgorau i ddefnyddio'r ap pleidleisio a ddefnyddir yn y Cyfarfod Llawn.

## Dulliau pleidleisio i'w defnyddio mewn pwyllgorau

### Pwyllgor o'r Senedd Gyfan

**15.** Trafododd y Pwyllgor Busnes y gwahaniaeth rhwng gweithdrefn ac arfer o ran y dulliau pleidleisio i'w defnyddio mewn Pwyllgor o'r Senedd Gyfan. Daeth i'r casgliad y gellid, drwy wneud newidiadau i Reol Sefydlog 17 i ddatgymhwyso Rheol Sefydlog 17.35 at ddibenion Pwyllgor o'r Senedd Gyfan a mewnosod darpariaeth sy'n cysoni pleidleisio mewn Pwyllgor o'r Senedd Gyfan â darpariaeth berthnasol ynghylch pleidleisio yn y Cyfarfod Llawn, adlewyrchu ac unioni arferion hanesyddol, ac osgoi'r dyblygu a'r risg o wahaniaethau anfwriadol a fyddai'n deillio o sefydlu darpariaeth newydd sy'n sefyll ar ei phen ei hun.

**16.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnig y dylai'r newidiadau i Reol Sefydlog 17 ddod i rym yn ystod y Chweched Senedd.

### Pwyllgorau eraill

**17.** Trafododd y Pwyllgor Busnes hefyd a ddylai gynnig rhagor o newidiadau i'r Rheolau Sefydlog i gynyddu'r hyblygrwydd a/neu'r dulliau pleidleisio sydd ar gael

i'w defnyddio gan bwyllgorau eraill y Senedd. Daeth i'r casgliad y byddai goblygiadau ymarferol a goblygiadau o ran adnoddau pe bai pwyllgorau eraill y Senedd yn gallu defnyddio dulliau pleidleisio electronig, ac nad oedd digon o dystiolaeth bod angen newid o'r fath nac y byddai'n mynd i'r afael â'r risgiau technegol penodol a nodwyd mewn perthynas â thrafodion cyfnodau diwygio'r pwyllgorau ar Filiau.

## Aelodau'n cymryd rhan mewn trafodion rhithwir a hybrid

### Cyfrifoldeb am sicrhau bod gan Aelod fynediad i gyfarfodydd (a systemau/dulliau pleidleisio)

**18.** Trafododd y Pwyllgor Busnes y gwahaniaethau yn narpariaethau'r Rheolau Sefydlog ac yn y canllawiau ynghylch pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod gan Aelodau unigol fynediad i Gyfarfodydd Llawn a chyfarfodydd pwyllgor (ac unrhyw systemau pleidleisio neu ddulliau pleidleisio a ddefnyddir). Daeth i'r casgliad y byddai mewnosod darpariaeth sy'n cyfateb i Reol Sefydlog A12.41A yn Rheol Sefydlog 17, a gwneud newidiadau cysylltiedig i'r canllawiau perthnasol, yn cynnig eglurder ac yn osgoi unrhyw ansicrwydd neu ddryswch.

**19.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnig y dylai'r newid i Reol Sefydlog 17 ddod i rym yn ystod y Chweched Senedd.

### Canllawiau ar drafodion rhithwir a hybrid

**20.** Trafododd y Pwyllgor Busnes y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyfranogiad rhithwir a hybrid drwy gydol y broses craffu deddfwriaethol. Mae'r manteision yn cynnwys hyblygrwydd i'r Aelodau a chyfranogwyr eraill, a'r rôl y gall cyfranogiad rhithwir a hybrid ei chwarae o ran cael gwared ar rwystrau a sicrhau bod lleisiau amrywiol yn cael eu clywed. Mae'r risgiau'n cynnwys problemau o ran sicrhau cworwm os bydd problemau technegol yn codi, beirniadaeth gan y cyhoedd, rhanddeiliaid neu dystion os oes canfyddiadau nad yw'r Aelodau'n ymgysylltu'n ddigonol, neu wrthwynebiad gan Weinidogion neu dystion eraill a allai fod yn amharod i ddod i'r cyfarfod yn y cnawd os bydd rhai Aelodau'n cymryd rhan yn rhithwir. Gall problemau technegol beri risg benodol yn ystod trafodion y cyfnodau diwygio, pan fo angen cynnal pleidleisiau'n aml drwy gydol y trafodion fel arfer.

**21.** Daeth y Pwyllgor Busnes i'r casgliad, er bod gan grwpiau gwleidyddol gwahanol safbwyntiau gwahanol ar ddefnyddio fformatau cyfarfodydd rhithwir a

hybrid, fod y manteision o ran cynnig hyblygrwydd i'r Aelodau a hwyluso amrywiaeth yn golygu na fyddai'n gymesur ar hyn o bryd ei gwneud yn ofynnol cymryd rhan yn y cnawd yn yr holl drafodion craffu deddfwriaethol. Er hynny, oherwydd y risgiau penodol sydd ynghlwm wrth drafodion y cyfnodau diwygio, cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'n briodol diweddaru'r canllawiau i bennu disgwyliad cryf y bydd Aelodau (ac eraill) yn cymryd rhan yn y cnawd yn nhrafodion cyfnodau diwygio Biliau, oni bai bod y cadeirydd wedi cytuno ymlaen llaw ei fod wedi'i fodloni:

- Bod yr amgylchiadau'n eithriadol, neu
- Y byddai hwyluso cymryd rhan yn rhithwir yn addasiad rhesymol ar gyfer anghenion penodol Aelod unigol.

**22.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid estyn y gwaharddiad ar Aelodau rhag pleidleisio pan fyddant y tu allan i'r DU, neu wrth ddefnyddio math o drafnidiaeth a bennir ar hyn o bryd yn y canllawiau ar Gyfarfodydd Llawn, i gynnwys cyfarfodydd pwyllgor.

**23.** Trafododd y Pwyllgor Busnes ddiwygiadau drafft i'r canllawiau, a chytunodd, yn amodol ar ymgynghori â Fforwm y Cadeiryddion, y dylent ddod i rym yn ystod y Chweched Senedd.

## Penderfyniad

**24.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar 18 Medi 2025 i gynnig newidiadau i Reol Sefydlog 17. Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r cynigion i newid y Rheol Sefydlog fel y nodir yn Atodiad 1.

# Atodiad 1 Rheol Sefydlog 17 arfaethedig a nodiadau esboniadol

| Rheol Sefydlog 17 – Gweithredu Pwyllgorau | | |
|---|---|---|
| | Pleidleisio | Cadw'r is-bennawd |
| 17.34 | Os bydd pleidlais yn angenrheidiol er mwyn cwblhau'r busnes, rhaid i'r cadeirydd wahodd y pwyllgor i dderbyn y cynnig neu'r gwelliant. Os:<br>(i) na fydd Aelod yn gwrthwynebu, bernir fod y cynnig neu'r gwelliant wedi'i dderbyn gan y pwyllgor; neu<br>(ii) bydd unrhyw Aelod yn gwrthwynebu, rhaid cynnal pleidlais yn unol â'r ddarpariaeth yn Rheol Sefydlog 17.35. | Cadw'r Rheol Sefydlog |
| 17.34A | <u>Cyfrifoldeb Aelod yw sicrhau bod ganddo fynediad personol neu o bell i gyfarfod pwyllgor ac unrhyw gyfrwng pleidleisio sydd ar waith, cyn pleidlais y mae'n bwriadu cymryd rhan ynddi.</u> | Byddai'r Rheol Sefydlog 17.34A newydd arfaethedig yn egluro mai cyfrifoldeb Aelod unigol yw sicrhau bod ganddo fynediad i gyfarfod pwyllgor (boed hynny yn y cnawd neu o bell) ac unrhyw ddulliau pleidleisio sydd ar waith, cyn unrhyw bleidlais y mae'n bwriadu cymryd rhan ynddi. Byddai'n cysoni'r ddarpariaeth ar gyfer pwyllgorau (gan gynnwys Pwyllgor o'r Senedd Gyfan) â'r ddarpariaeth ar gyfer y Cyfarfod Llawn (Rheol Sefydlog A12.41A). |
| 17.35 | Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 17.34(i), pleidleisir mewn pwyllgorau <u>(ac eithrio Pwyllgor o'r Senedd Gyfan)</u> drwy | Byddai'r newid arfaethedig yn datgymhwyso Rheol Sefydlog 17.35 at ddibenion Pwyllgor o'r |

| Rheol Sefydlog 17 – Gweithredu Pwyllgorau | | |
|---|---|---|
| | godi dwylo neu drwy alw'r gofrestr a, phan fydd unrhyw un o aelodau'r pwyllgor yn gofyn i'r bleidlais gael ei chofnodi, rhaid i enwau'r rhai sy'n pleidleisio (gan gynnwys y rhai sy'n ymatal) gael eu cofnodi yng nghofnodion trafodion y pwyllgor. | Senedd Gyfan. Mae'r newid arfaethedig hwn yn cyd-fynd â'r cynnig i ychwanegu Rheol Sefydlog 17.35A newydd, sy'n gwneud darpariaeth benodol ar gyfer y dulliau pleidleisio i'w defnyddio mewn Pwyllgor o'r Senedd Gyfan. |
| 17.35A | Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 17.34(i), pleidleisir mewn Pwyllgor o'r Senedd Gyfan yn unol â Rheol Sefydlog 12.43. Dylid dehongli cyfeiriadau at "Rheol Sefydlog 12.36" a "Llywydd" fel cyfeiriadau at "Rheol Sefydlog 17.34(i)" a "cadeirydd" yn unol â hynny. | Byddai'r Rheol Sefydlog 17.35A newydd arfaethedig yn cysoni'r dulliau pleidleisio y caniateir eu defnyddio mewn Pwyllgor o'r Senedd Gyfan â'r dulliau pleidleisio y caniateir eu defnyddio mewn Cyfarfod Llawn.<br>Pe bai'n dymuno gwneud hynny, wrth gadeirio Pwyllgor o'r Senedd Gyfan, gallai'r Llywydd/Dirprwy Lywydd ddefnyddio'r pŵer cyffredinol a roddir i gadeiryddion pwyllgorau i benderfynu ar weithdrefnau'r pwyllgor gan Reol Sefydlog 17.23 i fabwysiadu arfer sy'n cyfateb i'r hyn a nodir ar gyfer y Cyfarfod Llawn yn Rheol Sefydlog 12.44 ynghylch defnyddio'r gloch. |

# Atodiad 2 Y Rheolau Sefydlog fel y'u diwygiwyd

## Rheol Sefydlog 17 – Gweithredu Pwyllgorau

### Pleidleisio

17.34 Os bydd pleidlais yn angenrheidiol er mwyn cwblhau'r busnes, rhaid i'r cadeirydd wahodd y pwyllgor i dderbyn y cynnig neu'r gwelliant. Os:

(i) na fydd Aelod yn gwrthwynebu, bernir fod y cynnig neu'r gwelliant wedi'i dderbyn gan y pwyllgor; neu

(ii) bydd unrhyw Aelod yn gwrthwynebu, rhaid cynnal pleidlais yn unol â'r ddarpariaeth yn Rheol Sefydlog 17.35.

17.34A Cyfrifoldeb Aelod yw sicrhau bod ganddo fynediad personol neu o bell i gyfarfod pwyllgor ac unrhyw gyfrwng pleidleisio sydd ar waith, cyn pleidlais y mae'n bwriadu cymryd rhan ynddi.

17.35 Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 17.34(i), pleidleisir mewn pwyllgorau (ac eithrio Pwyllgor o'r Senedd Gyfan) drwy godi dwylo neu drwy alw'r gofrestr a, phan fydd unrhyw un o aelodau'r pwyllgor yn gofyn i'r bleidlais gael ei chofnodi, rhaid i enwau'r rhai sy'n pleidleisio (gan gynnwys y rhai sy'n ymatal) gael eu cofnodi yng nghofnodion trafodion y pwyllgor.

17.35A Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 17.34(i), pleidleisir mewn Pwyllgor o'r Senedd Gyfan yn unol â Rheol Sefydlog 12.43. Dylid dehongli cyfeiriadau at "Rheol Sefydlog 12.36" a "Llywydd" fel cyfeiriadau at "Rheol Sefydlog 17.34(i)" a "cadeirydd" yn unol â hynny.